

QUARRELL, JAMES (fl. 1650-72), pregethwr Piwritanaidd, Annibynnwr

Enw: James Quarrell

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: pregethwr Piwritanaidd, Annibynnwr

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Thomas Richards

Daw i'r golwg gyntaf fel un o ddisgyblion teithiol **Vavasor Powell** o dan Ddeddf y Taeniad (1650-3), un o brif amddiffynwyr y *gŵr* hwnnw yn yr *Examen et Purgamen Vavasoris*, a dal tarian **Powell** yn erbyn diffynwriaeth Cromwell drwy arwyddo'r *Word for God*. Sefydlwyd ef yn Ffordun gan y 'Triers.' Gyda'r Adferiad yn 1660 wele ef yng ngharchar Trallwng; o dan Ddeddf y Pum Milltir gorfu arno symud o Ffordun i gartref newydd, a dewisodd Amwythig; yno yn 1671 y rhoddodd gyngor petrus ddigon i **Henry Maurice** yng nghanol ei bryderon, ac yno, ar 22 Mai 1672, y cafodd drwydded i bregethu yn un o ystafelloedd y King's Head.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Vavasoris Examen et Purgamen or Mr V. Powell's impartiall triall who being apprehended upon the late hue and cry raised after him, hath appealed to God and his country, and is found not guilty (Llundain 1654), 14

Lambeth MS 989, 58

Calendar of State Papers, Domestic Series, Chas. II, E.B. 38A, 134

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, ii, 395-6

The Nonconformist Memorial; being an Account of the Lives and Printed Books of the two thousand Ministers ejected (1802â€³), iii, 150

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733333

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Richards, T., (1953). QUARRELL, JAMES (fl. 1650-72), pregethwr Piwritanaidd, Annibynnwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-QUAR-JAM-1650>

Copy

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government